

Rhwydwaith Arddangos

Fferm Bryn – Effeithlonrwydd gwartheg sugno

Mae Fferm Bryn yn cadw tua 75 o wartheg a chafodd gwerthusiad hanesyddol cychwynnol ei gynnal i ganfod perfformiad a statws iechyd y fuches. Cynhaliwyd profion cychwynnol i asesu statws Clefyd Johne ar y fferm er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw broblemau iechyd sylfaenol. Ar ôl i'r fuches brofi'n negatif i Glefyd Johne a BVD, roedd modd canolbwyntio ar gasglu data am berfformiad. Aeth Huw a Meinir ati i gadw cofnodion ar bwysau'r lloi, dyddiad lloea, anawsterau lloea ac arsylwadau eraill, a gwnaethant hefyd bwysu'r lloi yn rheolaidd. Cafodd twf y glaswellt ei fesur bob pythefnos, gan olygu bod modd cyllidebu a rhagweld yn fanwl unrhyw ormodedd neu ddiffygion, a oedd o gymorth i wneud penderfyniadau rheoli. Roedd cyfrifo perfformiad corfforol ac ariannol buches Fferm Bryn yn rhoi dealltwriaeth a man cychwyn i ni ar gyfer llunio cynllun gweithredu i ddatrys problemau a monitro perfformiad.

Nod y prosiect ar fferm Bryn oedd:


1. Gwella'r elw a ddaw o'r gwartheg sugno drwy fonitro a gwella perfformiad
2. Defnyddio technoleg i gofnodi data, gan ei gwneud yn haws monitro a gwerthuso
3. Nodi gwartheg isel eu perfformiad er mwyn eu tynnu o'r fuches

Mae'r buddion yn amlwg ar draws meysydd gwahanol ar fferm Bryn, gan gynnwys gwell rheolaeth o'r glaswelltir a seilwaith a ganiateir ar gyfer pori cylchdro, heb orfod defnyddio gwrtaith i gynnal yr un Kg/DM/ha/y dydd dros y tair blynedd (Ffigur 1). Mae hyn yn cyfateb i arbediad ariannol o £16,875 mewn costau gwrtaith.

Blwyddyn	2020	2021	2022
Kg/DM/ha/y dydd	34.1	27.9	28.8

Ffigur 1.

Mae Bryn hefyd wedi gwneud newidiadau i'r cyfnod lloea bob blwyddyn, ac erbyn 2022, llwyddwyd i gynyddu nifer y lloi o 27% yn ystod y tair wythnos gyntaf.



Ffigur 2: canran lloea yr wythnos dros gyfnod o bedair blynedd.

Mae sicrhau bod gwartheg yn cael eu rheoli'n unol â'r sgôr cyflwr y corff sy'n briodol ar gyfer eu cam cynhyrchu er mwyn manteisio i'r eithaf ar adnoddau a ffrwythlondeb, a dewis teirw er mwyn gwneud lloea yn haws, wedi arwain at gynydd o 88% i 94% yn nifer y lloea a fagwyd. Mae'r budd ariannol (£96 ychwanegol/y fuwch, neu £7,200 ar draws y fuches) yn sgil cynyddu nifer y lloi a fagwyd yn ystod cyfnod lloea byrrach yn sylweddol.

Rheolaeth dda sydd i gyfrif am lawer o'r gwelliant hwn, ond mae maint canolig y fuwch famol, sef Salers yn yr achos hwn, hefyd o gymorth. Y nodweddion mamol allweddol yw ffrwythlondeb da, aeddfedrwydd rhywiol cynnar, y gallu i fagu pwysau, llaethed, hir oes a lloea'n rhwydd. Mae hyn oll yn arwain at gyfraddau twf da ymhlith y lloi, ynghyd â gallu'r gwartheg stôr i gyrraedd cyflwr da ar y glaswellt.

Nantglas – Gwella ffrwythlondeb system lloea mewn blociau rhanedig

Nod y prosiect yw gwneud gwelliannau i roi hwb i'r ganran lloea ar chwe wythnos a'r ganran gyflo mewn chwe wythnos. Cafodd newidiadau eu gwneud i nifer o arferion rheoli (gan nad oedd un achos unigol yn achosi'r diffyg ffrwythlondeb), gyda'r nod o leihau'r bloc lloea gan sicrhau bod y gyfradd sy'n wag o dan 10%.

Cafodd gwartheg a oedd yn lloea yn yr hydref eu sganio ym mis Ebrill 2022, ac amlygodd y canlyniadau'r gyfradd gyflo +80% mewn chwe wythnos, a wnaeth lwyddo i leihau'r bloc lloea 12 wythnos i lai na 10 wythnos. Mae hyn wedi creu elw ychwanegol o £20,475 (heb gostau ymyrraeth) i'r busnes. Roedd y costau ymyrraeth ychydig o dan £5,500 ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf, ac roeddynt ar gyfer y canlynol:

- **Cydamseru'r heffrod:** £5/dos x 2 ddos x 25 heffer + ymweliad ac 1 awr o amser y milfeddyg x2 = £530
- **Atchwanegiad Mag:** Bolysau Mag ar gyfer gwartheg risg uchel x £2.50/bolws x 10 o wartheg = £25
- **Coleri:** £2500 y flwyddyn / 210 o wartheg
- **Cadw cofnodion a dadansoddi:** £1000 – £2000 – awr ychwanegol y diwrnod am, dyweder, 40 diwrnod ar gyfer lwan, a, dyweder, 8 awr o wasanaeth ymgynghorol milfeddyg.
- **Profion Metricheck:** 4 awr o amser milfeddyg + ymweliad + 10 metricure @£12.50 yr un = £595
- **Archwiliadau heffrod heb gylchred + triniaethau:** 2 awr o amser milfeddyg + ymweliad + 8 CIDR synchs @17.50 yr un = £420

CYFANSWM = £5500

Bydd rhan olaf y prosiect yn cael ei chwblhau ar ôl cyfnod lloea'r hydref 2022, pan gaiff y ffigurau terfynol eu cyfrifo i roi data ar gyfer pedwar bloc lloea cyflawn.

EIP Cymru



Cloffni mewn gwartheg godro

Er bod mwy o waith wedi'i wneud ym maes cloffi yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, nid oes llawer o ostyngiad wedi bod yn yr achosion o gloffi, ac mae'n effeithio ar tua 1 o bob 3 buwch yng Nghymru ar unrhyw adeg. Mae angen dull newydd, ffres sy'n cynnig dulliau amgen o gyfnewid gwybodaeth, a ffyrdd haws i ffermwyr reoli cloffi.

Nod y prosiect yw pennu effaith dulliau gwahanol o gyfnewid gwybodaeth ar ganfyddiad a gwybodaeth ffermwyr am gloffi, a newid eu hymddygiad. Yn aml, nid peidio â gwybod beth i'w wneud sy'n atal gwelliant, ond yn hytrach diffyg gwybodaeth am sut i roi syniadau ar waith yn ymarferol, yn enwedig pan fydd amser ac adnoddau yn brin.

Mae 24 ffermwr llaeth ar draws de-ddwyrain Cymru yn cymryd rhan yn y prosiect dwy-flynedd o hyd sy'n ceisio darganfod beth yw'r dull gorau o gael ffermwyr i fynd ati i reoli cloffi.

Canfyddiad o gloffi yn y diwydiant llaeth yng Nghymru.

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- RHEOLI PARASITIAID MEWNOL A GEIFR: GOBLYGIADAU I DDIWYDIANT SY'N TYFU
- CLOFFNI A DYSGU: CYFNEWID GWYBODAETH AM LES ANIFEILIAID
- PWYSIGRWYDD MAETH MEWN LLOI CYN EU DIDDYFNU
- EFFAITH SYSTEM GYNHYRCHU AR BROFFILIAU ASID BRASTEROG OMEGA-3 AC OMEGA-6 LLAETH
- CLAFR DEFAID: Y DIWEDDARAF AC YSTYRIAETHAU AT Y DYFODOL

Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cymorth drwy Gategoriâu Da Byw'r Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn:



Derbyniodd 13 o unigolion gymorth un-i-un drwy Gategoriâu Da Byw'r Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Derbyniodd 34 o grwpiau gymorth drwy Gategoriâu Da Byw'r Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Grwpiau Trafod



Grŵp Trafod Aberhonddu 2

Cyfarfod rhyngweithiol ar y fferm oedd hwn a'r nod oedd rhoi cyfle i'r aelodau weld drostynt eu hunain sut gall rheoli glaswelltir a chloffni yn dda arwain at fusnes da byw mwy proffidiol a chynhyrchiol. Yn ystod yr ymweliad â'r fferm, siaradodd Flockhealth a Marc Jones ag aelodau'r grŵp trafod am ddulliau rheoli glaswelltir a chloffni defaid - dwy thema amserol iawn ar yr adeg hon o'r flwyddyn.

Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd:

- Rheoli glaswellt cyn ac ar ôl wyna
- Gwneud y mwyaf o'r gyfradd stocio a'r defnydd o bori cylchdro
- Sicrhau bod glaswellt yn dreuliadwy i famogiaid ac ŵyn ar ddiwedd y cyfnod llaetha
- Pesgi ŵyn ar y glaswellt
- Defnyddio Egwyddorion Cynllunio Atal Amddiffyn sydd wedi'u profi'n dda i osgoi'r angen i drin achosion clinigol o gloffi
- Rhoi'r Cynllun Cloffi Pum Cam ar waith mewn sefyllfaoedd yn ymwneud â'r ddiadell benodol, er mwyn galluogi ffermwyr i wneud cynnydd realistig wrth fynd i'r afael â chloffni ymhlith eu diadell
- Trafod a rhannu profiadau unigol o gloffi, gan gynnwys yr achosion, mathau, dulliau o'i atal a'i wella.

Mae cloffi yn broblem wirioneddol i lawer o fusnesau a gall fod yn gostus iawn os na chaiff ei rheoli. Mae sawl aelod o'r grŵp trafod wedi mabwysiadu dull 'dim trimio' i reoli cloffi, ac maent yn gweld buddion y dull hwn. Maent wedi cyflwyno'r newid hwn yn sgil eu haelodaeth o'r grŵp trafod sydd wedi rhoi gwybodaeth a hyder iddynt newid arferion er budd iechyd y ddiadell.

Hyfforddiant



Derbyniwyd **228** hawliad am gyrsiau yn ystod y cyfnod hwn, roedd **82** ar gyfer cyrsiau yn gysylltiedig â da byw. Mae rhai o'r cyrsiau hyn wedi'u dangos yn y tabl isod:

Cyrsiau:	Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn:
Technegau Wyna	13
Defnyddio Dip Defaid mewn modd diogel	13
DIY Ffrwythloni Artiffisial (AI)	12
Defnyddio Meddyginiaethau Milfeddygol mewn modd diogel	11
Lles Dofednod	6

E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

ADEILADAU LLOI



MAETH MAMOGIAID



FFRWYTHLONDEB Y FUCHES BIFF



CLEFYDAU RHEWFRYN MEWN DEFAID (MV A CLA)



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

Cyfnewidfa Rheolaeth



Tom Jones

Mae Tom Jones yn enillydd ysgoloriaeth HCC, yn Ffermwr y Dyfodol Tesco, yn aelod o fwrdd Cenhedlaeth Nesaf yr NFU ac yn gyn-ffermwr ffocws Farmers Weekly. Ei nod yw creu dyfodol cynaliadwy ar gyfer ei deulu ifanc. Yn fab i ffermwr defaid a gwartheg sugno yn yr ucheldir, yn ystod ei ymweliadau cyfnewid mae Tom yn canolbwyntio'n bennaf ar gynhyrchu cig coch yn effeithlon ar system borthiant sy'n isel o ran costau ac sy'n gwella'r pridd, yn cynnal ansawdd dŵr ac yn gwella'r amgylchedd. Mae'n awyddus i wella proffidioldeb gwartheg sugno drwy gael gwell dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar hyn, gan gynnwys geneteg, systemau cofnodi/dethol a rheoli porfeydd. "Ein nod yw gwella effeithlonrwydd mamol y fuches sugno er mwyn gwella perfformiad a phroffidioldeb, ac yn y tymor hir, symud yn ôl at fridiau brodorol o wartheg."

Charlotte Wilson

Mae Lottie yn fyfyrwraig amaethyddiaeth sydd ar ei blwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Nottingham. Cafodd ei magu ar fferm laeth 650-acer y teulu ger Hwlfordd, ac ar ôl treulio blwyddyn yn gweithio yn y diwydiant yn ystod ei hastudiaethau sylfaen yng Ngholeg Hartpury, mae ganddi ddigon o brofiad ymarferol. Mae gan ei theulu 300 o wartheg Holstein Friesian sy'n lloea drwy'r flwyddyn, ac mae'r fferm yn gweithredu system rannol-ddwys, gan bori am tua chwe mis y flwyddyn. "Mae iechyd traed gwael yn ffactor pwysig iawn ym mherfformiad gwartheg, a gall arwain at leihau eu ffrwythlondeb, cynhyrchiad a'u hir oes. Trwy gysgodi rhai o academyddion mwyaf blaenllaw'r maes hwn, fy nod yw dysgu mwy am y problemau, gan gynnwys, dermatitis digidol, y defnydd o wrthfotigau, a thechnegau rheoli i wella cyfraddau cloffi."

Jamie McCoy

Graddiodd Jamie mewn amaethyddiaeth a prnywyd fferm teulu cymysg yn eiddo yng Ngheredigion gyda'i phartner yn 2011. Bloc o 200 mewn menter laeth lloia, mae'r cwpl entrepreneuriaid hwn wedi sefydlu mentrau arallgyfeirio er bod Jamie wedi cael swydd amser llawn o fewn y diwydiant. Maent yn pasteureiddio laeth a werthir trwy beiriannau gwerthu. Ganddynt 250 o famogiaid masnachol, menter pwmpenni, Airbnb llwyddiannus a menter a'r sglodion coed ar raddfa goedwigaeth yn cyflenwi biomas. Mae Jamie yn benderfynol o wella proffidioldeb y busnes, tra'n gwella ei etifeddiaeth amgylcheddol a chymunedol. "Mae angen i ni ychwanegu gwerth at laeth, cig, llysiau, ffibr fel pren a gwlan a chyfleoedd twristiaeth. Rwy'n bwriadu dysgu mwy am gadwyni cyflenwi byr sy'n gweithredu o'r fferm porth, i gadw ar y blaen i'r gromlin Ewropeaidd a chwrrd â'r cyfnewidiol anghenion ffermwyr a defnyddwyr."

Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid



29 O GWEITHDAI gyda **344** YMWELWYR

Enghreifftiau o weithdai a gynhaliwyd:

Rheoli Ffrwythlondeb Diadell



Cynyddu Cynhyrchiad Gwartheg Sugno i'r Eithaf



Rheoli Parasitiaid mewn Gwartheg



Ymwrthedd i Wrthfotigau



Gwella Perfformiad Ŵyn ar ôl Diddyfnu



Magu Lloi Iach a Sicrhau'r Elw Mwyaf



Rheoli Parasitiaid mewn Defaid – Rhan 1: Llyngyr Main a Phryfed Chwythu



www.llyw.cymru/cyswlltffermio